

Enw'r Ysgol:	Ysgol Y Ddwylan
Enw'r Polisi:	Polisi Hylendid
Dyddiad cymeradwywyd y Polisi'n ffurfiol gan y Corff Llywodraethol:	
Dyddiad daw'r polisi i rym:	
Dyddiad adolygu:	
Person(au) sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi:	
Llywodraethwr a enwyd:	
Llofnodwyd: Pennaeth	
Llofnodwyd: (Cadeirydd y Corff Llywodraethol)	

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn ddatganiad o nod, egwyddorion a strategau i gynnal safonau uchel o hylendid yn ein hysgol. Mae'r canllaw a amlinellwyd yn 'Teach Germs a Lesson' (LICC, 2006) wedi'i gymryd i ystyriaeth wrth lunio'r polisi hwn.

Datblygwyd y polisi fel atodiad at ein polisi iechyd a diogelwch a bydd yn cael ei adolygu fel rhan o adolygiadau iechyd a diogelwch cyffredinol.

Yn ein hysgol rydym yn cydnabod bod iechyd disgyblion ac oedolion yn hanfodol i sicrhau parhad addysg. Cyfrifoldeb pob rhanddeiliad yw hyrwyddo diwylliant ble mae iechyd, lles a hylendid yr holl ysgol yn cael eu trafod mewn modd agored a chadarnhaol. Mewn ysgolion ble mae disgyblion mewn cysylltiad corfforol clos ac aml â'i gilydd, gall afiechydon heintus ledaenu'n gyflym. Nid yn unig mae cyfnod o haint yn effeithio ar addysg y rhai a effeithiwyd, gallant hefyd darfu ar arferion yr ysgol ac achosi camau rheoli costus.

Credwn fod llawer o ffyrdd syml y gallwn eu defnyddio i helpu amddiffyn disgyblion a staff rhag haint a lleihau'r perygl o ymosodiad.

Mae'r rhain yn cynnwys:

Hylendid trwyadl

Sicrhau bod disgyblion a staff yn cael eu hannog i gael imiwneiddiad priodol a fydd yn eu hamddiffyn rhag heintiadau dwys ac sydd weithiau'n angheuol.

Ble'n briodol, cadw disgyblion a staff heintus o'r ysgol

Sicrhau triniaeth brydlon a phriodol i ddisgyblion a staff sydd gyda haint yn yr ysgol.

2. Pwrpas y Polisi

Dylai'r polisi hwn gael ei ddarllen ar y cyd â'r polisi iechyd a diogelwch. Mae'r ddogfen yn darparu trosolwg o ddull yr ysgol gyfan ynghylch dealltwriaeth glir o bwysigrwydd cyflawni a chynnal safonau uchel o hylendid a gofal personol.

Nod

Nod y llywodraethwyr a'r pennaeth yw cynnal amodau gweithio, offer a threfniadau gweithio diogel ac iach i'r holl staff a sicrhau cymaint o wybodaeth, hyfforddiant a goruchwyliaeth sydd ei angen i'r perwyl yn unol â Deddf Iechyd ac Addysg 1974.

Rydym hefyd yn derbyn ein cyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch disgyblion a phobl eraill a all gael eu heffeithio gan ein gweithgareddau.

Mae ein trefniadau hylendid yn dilyn y canllawiau a osodwyd gan Adran Iechyd a Diogelwch Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Ein nod yw:

- Lleihau neu gael gwared â ffynonellau haint
- Atal trosglwyddo llygriad o'r ffynonellau hyn
- Addysgu staff a disgyblion ynghylch ymarfer hylendid da a bod yn gyson ynghylch y neges sy'n cael ei chyflwyno
- Cadw cysylltiadau clos gyda rhieni a sicrhau cyfathrebu cartref - ysgol ynghylch ymarfer iechyd a hylendid a rheoli afiechydon heintus a / neu salwch heintus yn glir cyson ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd

Cyfrifoldebau

Mae'r ysgol yn cydnabod yr angen i nodi dulliau trefniadol i weithredu a rheoli iechyd, diogelwch a hylendid pawb sy'n gweithio neu'n ymweld â'r ysgol.

Yn ychwanegol at y cyfrifoldebau a amlinellwyd yn y 'Polisi Iechyd a Diogelwch,' mae'r canlynol yn grynodeb o gyfrifoldebau unigol, y strwythur canlyniad ac atebolrwydd.

1. Y Corff Llywodraethol

Mae gan y corff llywodraethol y cyfrifoldeb am sicrhau bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i leihau'r posibilrwydd o haint, cefnogi gwaith y pennaeth a staff yr ysgol.

Rhaid iddynt sicrhau:

- a) bod polisi hylendid yn cael ei chynhyrchu mewn cydweithrediad â'r pennaeth, a bod y polisi yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac fel bo'r angen
- b) bod asesiad risg yn cael ei gynnal ar unrhyw weithgaredd sydd â pheryglon arwyddocaol yn gysylltiedig ag ef a bod cofnod ysgrifenedig o'r asesiadau hyn yn cael eu cadw a'u hadolygu'n rheolaidd
- c) bod digon o arian yn cael ei ddyrannu ar gyfer materion hylendid e.e. darparu adnoddau toiled hylan, hyfforddiant priodol, darparu dillad amddiffynnol personol etc.
- d) bod diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol yn cael ei sefydlu a'i gynnal.

2. Y Pennaeth

Mae'r pennaeth yn gyfrifol ac yn atebol am weithredu'r polisi hwn a chydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ym mhob maes a gweithgaredd o fewn yr ysgol.

Er mwyn cyflawni hyn mae ei ddyletswyddau gweithredol yn cynnwys y canlynol:
Sicrhau bod pob aelod o staff (gan gynnwys staff newydd, staff llanw, rhai ar brawf a myfyrwyr, helpwyr gwirfoddol etc.) yn ymwybodol o gynnwys polisiau iechyd, diogelwch a hylendid yr ysgol a phob ymarfer gweithio'n ddiogel.

Mae'n cael ei ystyried yn angenrheidiol i benodi un neu fwy o aelodau o staff i wneud dyletswyddau penodol yn ymwneud â hylendid.

Sicrhau bod yr ysgol, y dodrefn a gosodiadau yn daclus, glân a hylan
Goruchwylio'r rhaglen a ddogfenwyd i lanhau'r holl ysgol a'r protocol i gael gwared ar unwaith o ollyngiad heintus gwaed a hylif corfforol (chwyd neu ddeunydd ymgarthol)
Sicrhau bod y staff glanhau wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn ymwybodol o ganllawiau cenedlaethol.

Cynnal rhestr o afiechydon mae'n rhaid dweud amdanynt a sicrhau bod yr holl staff yn gyfarwydd â chanllawiau lleol a gweithdrefnau i ddweud am afiechydon CCDC ac EHO.

Hysbysu CCDC os digwydd afiechyd y dylid dweud amdano yn yr ysgol

Sicrhau bod arferion clir, rota a chyfrifoldebau staff wedi'u gosod.

3. Staff

Mae staff yn gyfrifol i'r pennaeth am iechyd, diogelwch a hylendid pob man gwaith a gweithgaredd o dan eu rheolaeth. I gyflawni hyn, mae'r dyletswyddau'n cynnwys y canlynol:

Cefnogi'r pennaeth gyda'r nod a'r cyfrifoldebau a amlinellwyd uchod, a chymryd cyfrifoldeb am yr uchod, yn absenoldeb y pennaeth

Sicrhau bod yr holl staff, staff newydd, disgyblion, staff llanw a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o anghenion y Polisi Iechyd a Diogelwch a'r Polisi Hylendid, ac ymarferion gweithio'n ddiogel sy'n berthnasol i'w maes gweithgaredd.

Annog ymwneud pob disgybl mewn materion hylendid a lles.

Hysbysu'r pennaeth am anghenion hyfforddiant.

Sefydlu ac adolygu'n rheolaidd ymarferion gweithio diogel gweithgareddau sydd o dan eu rheolaeth.

Gweithredu'n effeithiol a/neu gyfeirio ar unwaith unrhyw broblemau iechyd, diogelwch a hylendid y dygwyd at eu sylw atynt at y pennaeth.

4. Staff Addysgu (Gan Gynnwys Athrawon Llanw) a Staff Cefnogi

Mae gan athrawon ddyletswydd gofal o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Er mwyn cyflawni hyn, mae eu dyletswyddau'n cynnwys y canlynol, yn ychwanegol at y rhai a amlinellwyd yn y Polisi Iechyd a Diogelwch. Bydd athrawon yn: dilyn ac yn cadw at gynllun 'Teach Germs a Lesson' (LICC, 2006)

Hysbysu'r pennaeth o unrhyw salwch neu afiechyd sydd angen dweud amdano sy'n ymwneud â disgybl(ion) yn eu dosbarth.

Helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o ymarfer hylendid da trwy addysgu disgyblion am bwysigrwydd golchi dwylo, sychu trwyn a chael gwared â hancesi papur, lledaenu haint trwy besychu a thisian a hylendid bwyd a'r gegin.

Dilyn yr ymarfer gorau e.e. gwisgo dillad priodol, golchi dwylo a defnyddio byrddau torri o wahanol god lliw a chyllyll ar gyfer bwydydd amrwd a pharod i'w bwyta yn ystod sesiynau coginio a gweithgareddau BOBs a darparu ymwybyddiaeth hylendid bwyd sylfaenol - fel yr amlinellwyd yng nghynllun 'Teach Germs a Lesson' (LICC, 2006).

Addysgu disgyblion am hylendid personol fel rhan o wersi ABCh/SRE

Gweithredu

Mae'r ysgol yn hyrwyddo safonau uchel o iechyd a hylendid yn ei gweithgareddau dyddiol gyda disgyblion ac oedolion. Mae hyn yn cael ei gyflawni yn y ffyrdd canlynol:

Salwch

- Os bydd disgybl yn mynd yn sâl yn ystod y diwrnod ysgol bydd un o'r darparwyr cymorth cyntaf a/neu'r pennaeth a/neu bennaeth cynorthwyol yn penderfynu a ddylid ei anfon adref. Os hynny, byddwn yn ffonio'r rhieni neu'r cyswllt enwebedig arall.
- Gofynnir i rieni gadw disgyblion gartref os oes ganddynt haint, a hysbysu'r ysgol o natur yr haint. Bydd y pennaeth yn hysbysu rhieni eraill o'r perygl o haint os bydd angen.
- Gofynnir i rieni beidio anfon disgybl i'r ysgol os bu ef/hi yn chwydu neu wedi bod gyda'r ddolur rydd hyd o leiaf 48 awr ers yr ymosodiad diwethaf.
- Toriadau a briwiau agored yn cael eu glanhau a gorchuddio gyda phlastr neu orchudd arall.
- Mae gan y darparwyr cymorth cyntaf, pennaeth a'r pennaeth cynorthwyol gyfrifoldeb am sicrhau bod yr offer cymorth cyntaf yn cael eu cadw'n lân a'i ail gyflenwi fel bo'r angen a bod eitemau dihaint yn cael eu cadw wedi'u selio yn eu pecyn hyd y bo eu hangen. Hefyd dylid mynd â phecynnau cymorth cyntaf gyda hwy ar ymweliadau o'r ysgol a defnyddio sach felen i gael gwared â defnyddiau.

Hylendid Personol

Er atal lledaeniad haint, bydd oedolion yn sicrhau bod yr ymarfer da canlynol yn cael ei ddilyn:

- golchi'r dwylo'n drwyadl ar ôl defnyddio'r toilet, ar ôl cyffwrdd unrhyw wyneb sydd wedi'i lygru o bosibl (e.e. draen, cadach glanhau, bin gwastraff, pridd), ar ôl dod i gysylltiad â gwaed neu hylif corfforol gan gynnwys ar ôl tagu, tisian, neu ofalu am y gwael, cyffwrdd anifeiliaid, yn syth cyn trin unrhyw fwyd ac yn syth ar ôl trin bwyd amrwd, cyn ac ar ôl gorchuddio briw, rhoi unrhyw foddion, neu osod lensys cyffwrdd.
- staff a gwirfoddolwyr yn dilyn y rheolau sy'n ymwneud â hylif corfforol gyda gofal arbennig, yn unol â'r polisi a chanllawiau PCC.
- addysgu hylendid bwyd/ymarfer diogel i bob disgybl sy'n defnyddio'r gegin arlwygo a sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn
- Addysgu disgyblion am hylendid personol mewn ABCh

Glanhau a chlirio

- Sychu unrhyw waed neu chŵyd a gollwyd a chael gwared ohono gan ddefnyddio cit cael gwared â hylif corfforol. Menig tafladwy i gael eu defnyddio bob tro wrth sychu hylif corfforol. Diheintio wyneb a lloriau a effeithiwyd gan ddefnyddio cannydd clorin neu iodine wedi'i wanychu'n ôl cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
- Golchi ffabrig a halogwyd gyda hylif corfforol yn drwyadl mewn dŵr poeth.
- Pob wyneb yn cael ei lanhau'n ddyddiol gyda glanhawr priodol.
- Oerwyr dŵr yn cael gwasanaeth rheolaidd yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr

Bwyd

Bydd yr ysgol yn dilyn deddfwriaeth bresennol parthed hylendid, cofrestru a hyfforddiant. Yn neilltuol, bydd staff sy'n paratoi bwyd yn cydymffurfio gyda'r canllawiau canlynol ac bydd staff sy'n dysgu disgyblion i baratoi/coginio bwyd yn sicrhau eu bod yn dilyn y canllawiau:

Bydd pob oedolyn yn:

- golchi ei ddwylo bob tro o dan y tap cyn trin bwyd ac ar ôl defnyddio'r toilet.
- Peidio paratoi bwyd os ydych chi'n dioddef o unrhyw salwch heintus/cyffwrdd-ymledol neu broblemau croen.
- Peidio tagu neu disian dros fwyd.
- Defnyddio gwahanol gadach glanhau ar gyfer y gegin a'r toilet.
- Paratoi bwyd amrwd ac wedi'i goginio mewn gwahanol fannau.
- Gorchuddio bwyd ac un ai ei gadw yn yr oergell neu'n boeth iawn.
- Rhoi caead ar y bin sbwriel a golchi dwylo ar ôl ei ddefnyddio.
- Golchi ffrwythau a llysiau ffres yn drwyadl cyn eu defnyddio.

Unrhyw fwyd neu ddiod sydd angen ei dwymo i gael ei dwymo yn syth cyn ei weini a pheidio ei adael yn sefyll. Ni fydd bwyd neu ddiod i ddisgyblion yn cael ei aildwymo. Lliain llestri i gael eu cadw'n lân a'u storio mewn lle di-lwch, e.e. cwpwrdd wedi'i gau neu ddrôr. Ni ddefnyddir llestri wedi cracio neu gyda thamaid ar goll.

Cyfrifoldebau Disgyblion

Disgwylir i bob disgybl:

1. Gymryd cyfrifoldeb personol am ddiogelwch eu hunain a'u cyd-ddisgyblion.
2. gwisgo dillad priodol, e.e. cit addysg gorfforol ac ymarfer, ffedogau ar gyfer coginio, dillad amddiffynnol ar gyfer gweithgareddau awyr agored ac anturus.
3. Cadw'r holl reolau diogelwch, yn arbennig cyfarwyddiadau i athrawon os digwydd argyfwng;
4. Defnyddio ac nid camdefnyddio'n fwriadol, esgeuluso neu ymyrryd gydag offer a ddarparwyd i berwyl diogelwch.

Monitro a Gwerthuso ein Perfformiad Hylendid

Dyletswydd y pennaeth a'r llywodraethwr cyswllt iechyd a diogelwch yw monitro gweithredu'r polisi hylendid hwn.

Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiwygio fel bo'r angen.